# Estyn

Mehefin 2021



# Gwaith ymgysylltu

## Addysg Gychwynnol i Athrawon
## Diweddariad sector 2020-2021

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o alwadau ymgysylltu a wnaed â'r holl bartneriaethau addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru rhwng mis Medi 2020 a mis Mehefin 2021. Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar y wybodaeth a drafodwyd yn ystod cyfarfodydd o bell ag arweinwyr partneriaethau, tiwtoriaid a mentoriaid ac athrawon dan hyfforddiant.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lywio gan dystiolaeth o'r ffynonellau canlynol:

- Cyfarfodydd o bell ag arweinwyr partneriaethau, cynrychiolwyr ysgolion arweiniol partneriaeth a chynrychiolwyr myfyrwyr
- Cyfarfodydd o bell â staff partneriaethau a myfyrwyr yn ystod ymweliadau arbrofol o bell
- Trafodaethau â staff partneriaethau o ysgolion a phrifysgolion yn ein fforymau rhanddeiliaid

## Cefndir

Yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau achredu, mae saith partneriaeth addysg gychwynnol (yn cynnwys prifysgolion a'u hysgolion partner) yng Nghymru erbyn hyn. Mae'r partneriaethau'n darparu llwybrau israddedig ac ôl-raddedig i addysgu. O fis Medi 2020, roedd dau lwybr newydd ar gael, sef llwybr rhan-amser TAR a llwybr cyflogaeth, y darperir y ddau gan Bartneriaeth y Brifysgol Agored.

Yn 2020-2021, parhaom i weithio gyda'r partneriaethau i beilota dulliau arolygu sy'n alinio â'r gweithdrefnau achredu newydd ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon. Ar y cyd â'r sector, cynhaliom dri gweithgaredd 'arbrofol' pellach yn rhithiol, i brofi gwahanol fethodolegau arolygu.

Yn ogystal â'r gwaith hwn, rydym wedi cadw mewn cysylltiad â'r holl bartneriaethau addysg gychwynnol i athrawon trwy gydol pandemig COVID-19. Rydym wedi cynnal ymweliadau ymgysylltu rhithiol gyda darparwyr unigol ac arweinwyr addysg gychwynnol i athrawon o fewn y consortia rhanbarthol, ac wedi gweithio gyda'r sector i ddatblygu ein deunyddiau arweiniad arolygu.

Mae angen y canlynol ar raglenni newydd addysg gychwynnol i athrawon a ddechreuodd ym mis Medi 2019:

- rôl gynyddol ar gyfer ysgolion
- rôl gliriach ar gyfer prifysgolion
- perchnogaeth ar y cyd o'r rhaglen addysg gychwynnol i athrawon rhwng ysgolion a sefydliadau addysg uwch
- cyfleoedd strwythuredig i gysylltu dysgu yn yr ysgol a'r brifysgol
- canologrwydd ymchwil[1]

[1] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/meini-prawf-ar-gyfer-achredu-rhaglenni-addysg-gychwynnol-athrawon-yng-nghymru.pdf

Mae'r partneriaethau a grëwyd trwy'r prosesau achredu newydd yn gweithredu mewn ffordd wahanol i'r partneriaethau hynny yn y gorffennol. Mewn llawer o achosion, cânt eu hadeiladu ar berthnasoedd sefydledig rhwng sefydliadau addysg uwch ac ysgolion. Mae'r pwyslais ar gyd-greu rhaglenni, arweinyddiaeth ar y cyd ac atebolrwydd ar y cyd yn y meini prawf achredu wedi ysgogi ffyrdd newydd o weithio. Mae COVID-19 wedi cyflwyno heriau sylweddol o ran datblygu gwaith y partneriaethau ac wrth gynllunio'r rhaglenni newydd. Mae ymroddiad partneriaid i ddarparu addysg gychwynnol i athrawon yn ystod y cyfnod ansicr hwn wedi bod yn ganmoladwy.

# Cynnwys


**Prif ganfyddiadau** **1**

**Recriwtio** **4**

**Safonau a lles** **5**

**Addysgu a phrofiadau dysgu** **9**

Y rhaglen a addysgir 9

Cysylltu theori ac arfer 11

Y rhaglen yn yr ysgol 12

Datblygu dealltwriaeth myfyrwyr o'r Cwricwlwm i Gymru 13

Datblygu dealltwriaeth myfyrwyr o addysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol 13

Profiad ysgol 14

Asesu yn erbyn y safonau 14

**Arweinyddiaeth a rheolaeth** **15**










## Prif ganfyddiadau

**Recriwtio**

1 Bu cynnydd cyffredinol yn nifer yr athrawon dan hyfforddiant sydd wedi cael eu recriwtio i ddilyn cyrsiau addysg gychwynnol i athrawon eleni, ond mae pynciau sy'n anodd eu recriwtio iddynt yn destun pryder o hyd.

2 Mae’n siŵr fod y cynnydd mewn recriwtio o ganlyniad i ansicrwydd mewn cyflogaeth a ysgogwyd gan y pandemig. Yn ychwanegol, galluogodd canllawiau dros dro gan Lywodraeth Cymru i bartneriaethau recriwtio myfyrwyr nad oeddent wedi cyflawni gradd B mewn Saesneg a mathemateg mewn TGAU, gyda’r gofyniad eu bod yn llwyddo mewn prawf cywerthedd yn ystod eu rhaglen.

**Safonau a lles**

3 Dywed staff partneriaethau fod myfyrwyr wedi ymdopi’n gadarnhaol â heriau hyfforddiant eleni. Maent yn nodi bod y gofynion dysgu ac addysgu yn ystod y pandemig wedi cryfhau dealltwriaeth myfyrwyr o ddulliau digidol o addysgu a dysgu.

4 Hefyd, nododd tiwtoriaid a mentoriaid fod myfyrwyr wedi dangos cryfderau yn eu hyblygrwydd, addasrwydd, dyfalbarhad a gwydnwch, wrth wynebu anawsterau hyfforddiant eleni.

5 Trwy eu profiadau addysgu a dysgu o bell, bu’n rhaid i fyfyrwyr ystyried agweddau ar eu haddysgu yn fwy gofalus, fel cynllunio ac asesu ffurfiannol. Myfyriont ar eu profiadau o fod yn ddysgwyr o bell, a helpodd hyn iddynt ddangos empathi tuag at ddisgyblion.

6 At ei gilydd, mae’r cyfyngiadau a ysgogwyd gan COVID-19 wedi golygu bod myfyrwyr wedi cael llai o gyfleoedd i ymgymryd â’r canlynol:

- addysgu sesiynau ymarferol mewn pynciau fel gwyddoniaeth, y celfyddydau ac Addysg Gorfforol
- cynllunio ar gyfer ystod lawn y dysgu mewn pwnc, yn enwedig yn y sector uwchradd, yn cynnwys cynllunio ar gyfer myfyrwyr TGAU a Safon Uwch
- rhyngweithio â disgyblion yn yr ystafell ddosbarth mewn gwaith un i un a gwaith grŵp
- gweithio gydag oedolion eraill yn yr ystafell ddosbarth
- rhyngweithio â disgyblion mewn ystod o gyd-destunau, fel amser egwyl, amser cinio, a dysgu y tu allan i’r ystafell ddosbarth
- ystod o ddulliau rheoli ystafell ddosbarth
- arsylwi athrawon yn gweithio mewn amrywiaeth o gyd-destunau
- profi’r cysylltiadau rhwng theori ac arfer mewn ysgol

7 Y myfyrwyr a ddatblygodd eu medrau ymchwil yn fwyaf llwyddiannus oedd y rhai a leolwyd mewn ysgolion lle roedd diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol yn seiliedig ar ymholi. Yn yr ysgolion hyn, enillodd myfyrwyr ddealltwriaeth werthfawr o’r rhyngweithio rhwng theori a datblygu arferion.

8 Roedd eleni'n eithriadol o heriol o ran lles myfyrwyr. Collwyd y cyfleoedd arferol i ddatblygu perthnasoedd gwaith gyda'u tiwtoriaid, eu mentoriaid a'u cyfoedion. Roeddent yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarparwyd gan staff partneriaethau a'r defnydd a wnaed o'r bartneriaethau o gyfathrebu a chymorth rhithiol. Mae llawer o fyfyrwyr yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ddatblygu rhwydweithiau gyda'u cyd-fyfyrwyr ar-lein.

9 Gwelodd rhai myfyrwyr fod y trosglwyddo o weithio ar-lein yn nhymor yr hydref i sicrhau cydbwysedd rhwng cynllunio ar gyfer profiadau ysgol a gofynion asesiadau yn nhymor y gwanwyn yn heriol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

10 Ailgynlluniodd yr holl bartneriaethau eu rhaglenni er mwyn cynnwys astudio academaidd a damcaniaethol ar gychwyn rhaglen. Chwaraeodd ysgolion arweiniol ran allweddol mewn adolygu rhaglenni, ac mae hyn wedi helpu sicrhau bod yr holl bartneriaid wedi gallu cefnogi myfyrwyr yn ystod argyfwng COVID-19.

11 Roedd tiwtoriaid a mentoriaid a gyflwynodd sesiynau ar-lein yn awyddus i wneud sesiynau mor ryngweithiol ag y bo modd ar gyfer myfyrwyr. Arbrofont â gwahanol ddulliau a helpodd hyn i fodelu arfer effeithiol ar gyfer y myfyrwyr.

12 Datblygodd llawer o bartneriaethau eu rhaglenni i gynnwys dulliau digidol o ddysgu ac addysgu. Roedd sesiynau wedi eu haddysgu yn cynnwys archwilio platfformau dysgu digidol a'r ffyrdd y gellir defnyddio'r rhain yn greadigol wrth gynllunio gwersi. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, enillodd myfyrwyr ddealltwriaeth o'r addysgeg ddigidol.

13 Adolygodd staff partneriaethau aseiniadau a thasgau er mwyn helpu myfyrwyr i ystyried y cysylltiadau rhwng theori ac arfer. Mae hyn yn arbennig o effeithiol lle mae mentoriaid a staff partneriaethau yn yr ysgol yn cynorthwyo myfyrwyr i wneud eu hastudio damcaniaethol yn ystyrlon trwy ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr rannu eu syniadau â staff yn yr ysgol.

14 Mewn rhai ysgolion, mae myfyrwyr wedi cael mwy o gyfleoedd i ymgymryd â dysgu proffesiynol gyda staff ysgol trwy ddigwyddiadau datblygiad proffesiynol rhithiol. Yn yr ysgolion arweiniol mwyaf effeithiol, mae myfyrwyr wedi cael profiad o ddulliau dysgu proffesiynol trwy gydol gyrfa, a gweld sut mae'r ysgolion hyn yn cefnogi staff i ddatblygu eu syniadau a'u medrau yn barhaus.

15 Mae'r holl bartneriaethau yn elwa o'u partneriaid ysgol arweiniol effeithiol. Mae holl aelodau staff ysgolion arweiniol wedi cynnal eu hymrwymiad i gyd-gyflwyno'r rhaglenni trwy gydol cyfnod y pandemig. Dywedodd ymarferwyr ysgolion arweiniol y cafodd addysgu'r rhaglen a arweinir gan ysgolion effaith gadarnhaol ar ymagwedd yr ysgol gyfan at ymchwil ac ymholi yn ystod y pandemig. Darparodd ffocws cadarnhaol ar gyfer yr ysgol, a chynnal ymdeimlad o barhad.

16 Un o'r heriau penodol eleni fu paratoi myfyrwyr i addysgu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae ysgolion partneriaeth ar gamau datblygu amrywiol o ran paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae cyfleoedd i fyfyrwyr ennill profiadau uniongyrchol o sut

mae ysgolion yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm wedi bod yn gyfyngedig eleni, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd.

17 Ar ôl cymryd rhan weithredol wrth gynllunio'r rhaglenni, cefnogodd yr ysgolion arweiniol y myfyrwyr yn dda yn eu profiad ysgol. Roedd profiadau ar gyfer myfyrwyr yn y rhwydwaith ysgolion ehangach yn fwy amrywiol. Nid oedd gan y mentoriaid hyn ddealltwriaeth glir o ofynion y rhaglen, fel disgwyliadau am gynllunio ac addysgu, cymorth ar gyfer cwblhau aseiniadau, a dod o hyd i gyfleoedd i fyfyrwyr ddysgu gan ystod o ymarferwyr.

18 Mae prosesau gan bob rhaglen i asesu trywydd myfyrwyr tuag at Statws Athro Cymwys (SAC). Mae holl staff partneriaethau yn meddu ar ddealltwriaeth o egwyddorion gwneud hyn, ond yn ymarferol, mae wedi bod yn heriol gweithio gyda'r holl bartneriaid i sicrhau bod pawb yn meddu ar ddealltwriaeth ar y cyd o sut i ddod i farn am gynnydd myfyrwyr yn erbyn y safonau ar gyfer SAC.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

19 Mae partneriaid addysg gychwynnol i athrawon wedi arddangos dycnwch ac ystwythder nodedig wrth weithio gyda'i gilydd i gefnogi athrawon dan hyfforddiant eleni. Mae partneriaethau'n arddangos ymrwymiad cryf i gydweithio, ac mae perthnasoedd gweithio yn aeddfedu. Mae ysgolion arweiniol wedi dangos ymrwymiad penodol i addysg gychwynnol i athrawon, gan sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu elfennau yn yr ysgol y rhaglenni yn ystod cyfnodau pan oeddent yn wynebu heriau sylweddol o ganlyniad i'r pandemig.

20 O ganlyniad i anawsterau i leoli myfyrwyr mewn ysgolion eleni, mae partneriaethau wedi estyn allan i rwydwaith ehangach o ysgolion i gefnogi myfyrwyr. Mae ehangu'r bartneriaeth yn y ffordd hon, ynghyd â chyfyngiadau ar ymweld ag ysgolion, wedi golygu nad yw partneriaethau wedi ymgymryd â gweithdrefnau sicrhau ansawdd a datblygiad mentoriaid unigol, yn unol â'r bwriad. O ganlyniad, mae myfyrwyr wedi cael profiadau sy'n amrywio'n sylweddol.

21 Mae llawer o bartneriaethau wedi datblygu ffyrdd newydd o weithio'n rhithiol eleni. Mae gweminarau a digwyddiadau dysgu proffesiynol ar-lein wedi cynorthwyo mentoriaid i ddatblygu eu harferion. Mae cyfarfodydd rhithiol mwy rheolaidd wedi galluogi mwy o gyfleoedd ar gyfer sgwrsio, ac mae hyn wedi cryfhau ysbryd colegol a chymorth ar y ddwy ochr trwy gydol yr argyfwng.

## Recriwtio

Ym mis Medi 2020, cafodd 1,498 o fyfyrwyr eu recriwtio ar raglenni amser llawn addysg gychwynnol i athrawon. Ymunodd 808 â rhaglenni cynradd, a dechreuodd 690 ddilyn rhaglenni uwchradd. Yn ychwanegol, cafodd 138 o fyfyrwyr (43 uwchradd a 95 cynradd) eu recriwtio ar lwybrau'r Brifysgol Agored[2].

Ar ôl sawl blwyddyn o recriwtio gwael, bu cynnydd cyffredinol yn nifer y myfyrwyr a gafodd eu recriwtio ar raglenni addysg gychwynnol i athrawon eleni. Mae nifer y myfyrwyr a gafodd eu recriwtio ar raglenni addysg gychwynnol i athrawon ar ei huchaf er 2014-2015. Cynyddodd niferoedd cynradd 35%, ac uwchradd 59% o gymharu â ffigurau'r llynedd. Fodd bynnag, roedd y cynnydd hwn mewn recriwtio yn amrywio o un bartneriaeth i'r llall, ac er ei fod yn cynyddu, mae nifer y myfyrwyr sy'n hyfforddi mewn pynciau uwchradd sy'n anodd eu recriwtio iddynt yn parhau i fod yn destun pryder. Mae'r prinder mwyaf sylweddol mewn myfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn athrawon Cymraeg. Mae nifer y myfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws pynciau uwchradd tua'r un fath ac wedi aros felly dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cyfran y myfyrwyr sy'n hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg yn wahanol ym mhob partneriaeth.

Gellir priodoli'r cynnydd mewn recriwtio yn 2021 yn bennaf i'r ffaith fod mwy o ddiddordeb mewn rhaglenni TAR, ac mae'n siŵr fod hyn o ganlyniad i ansicrwydd mewn cyflogaeth a ysgogwyd gan y pandemig. Dywedodd arweinwyr partneriaethau eu bod wedi cyfweld â mwy o 'bobl oedd am newid gyrfa' na mewn blynyddoedd blaenorol, a bod nifer fawr o geisiadau wedi dod gan weithwyr ar y cynllun ffyrlo. Dywedodd ychydig o arweinwyr partneriaethau eu bod wedi cynnig lleoedd eleni i fyfyrwyr oedd ag ystod ehangach o brofiadau. Ffactor cyfrannol arall oedd bod canllawiau Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi partneriaethau i recriwtio myfyrwyr nad oeddent wedi ennill gradd B TGAU eto mewn Saesneg a mathemateg. Mae'r canllawiau yn hepgor y rheidrwydd i fyfyrwyr gael y cymwysterau hyn cyn dechrau ar y rhaglen trwy alluogi partneriaethau i ddarparu profion cywerthedd ar gyfer myfyrwyr yn ystod eu rhaglenni[3]. At ei gilydd, mae arweinwyr a staff partneriaethau wedi dweud eu bod yn falch ag ansawdd y carfannau eleni. Llwyddodd llawer o fyfyrwyr yn eu profion cywerthedd, ac mae arweinwyr partneriaeth yn nodi bod nifer y myfyrwyr sydd angen cymorth yn debyg i'r hyn ydoedd mewn blynyddoedd blaenorol.

[2] Data anghyhoeddedig a ddarparwyd gan CGA.

[3] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/coronafeirws-covid-19-canllawiau-dros-dro%20ar-gyfer-partneriaethau-addysg-gychwynnol-athrawon.pdf (llyw.cymru)

## Safonau a lles

**Dywed yr holl bartneriaethau fod myfyrwyr wedi ymdopi’n gadarnhaol â heriau hyfforddiant eleni. Nododd staff ysgolion yn benodol fod cryfderau ym medrau digidol myfyrwyr wedi eu helpu i ymgymryd â dysgu o bell yn ystod cyfnodau pan na allent fod yn yr ysgol.**

Hefyd, mynegodd staff mewn rhai ysgolion partneriaeth eu bod yn ddiolchgar am y ffordd y cefnogodd myfyrwyr yr ysgol i  ddatblygu dulliau dysgu digidol.  Rhoesant enghreifftiau niferus o fyfyrwyr a awgrymodd gymwysiadau meddalwedd ac adnoddau newydd, neu a ddarparodd arweiniad ar agweddau technegol ar dechnoleg ddigidol.

Roedd cyfyngiadau COVID-19 yn golygu nad oedd llawer o bartneriaethau’n gallu trefnu lle ar gyfer myfyrwyr yn y brifysgol neu mewn ysgolion yn ystod tymor yr hydref.



Darparwyd sesiynau academaidd ar-lein, ac roedd myfyrwyr ond yn gallu ymgysylltu ag elfennau yn yr ysgol eu rhaglenni o bell. Myfyriodd y myfyrwyr y siaradom ni â nhw ar eu profiadau o addysg gychwynnol i athrawon ar ddechrau eu rhaglenni. Siaradont am eu rhwystredigaethau yn sgil peidio â gallu profi addysgu wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn canmol staff ysgolion a phrifysgolion am eu cefnogaeth i wneud y gorau o sefyllfa anodd. Nododd rhai myfyrwyr fod eu profiad o fod yn ddysgwr o bell wedi eu helpu i gynllunio ar gyfer dysgu o bell gan eu bod yn gallu dangos empathi â'u disgyblion.

Mae staff partneriaethau wedi nodi, wrth ymateb i'r newidiadau i raglenni a ysgogwyd gan y pandemig, fod myfyrwyr wedi arddangos cryfderau mewn agweddau ac ymddygiadau penodol eleni, fel hyblygrwydd, addasrwydd, dyfalbarhad a gwydnwch. Hefyd, dywedant fod myfyrwyr wedi meithrin medrau penodol yn eu haddysgu, er enghraifft eu medrau holi wrth gynllunio ar gyfer dysgu ar-lein, a bod myfyrwyr yn canolbwyntio mwy ar addysgeg am nad oedd rhaid iddynt reoli ymddygiad disgyblion fel y byddent mewn cyd-destun go iawn. Myfyriodd myfyrwyr ar y ffyrdd yr oeddent yn ymdrin ag asesu ffurfiannol oherwydd yr heriau i gadarnhau dealltwriaeth disgyblion wrth addysgu ar-lein. Siaradodd ychydig ohonynt am y ffordd yr oedd yr anhawster hwn yn eu sbarduno i feddwl mewn ffyrdd gwahanol, er enghraifft am sut gallent ddefnyddio'r cyfleuster 'sgwrsio' i ymgysylltu â disgyblion, neu ddefnyddio cwisiau ac arolygon i asesu cynnydd disgyblion. Hefyd, dywedodd ychydig o fyfyrwyr wrthym sut roedd addysgu ar-lein yn gwneud iddynt feddwl yn ddychmygus hefyd am yr adnoddau y gallent eu defnyddio, er enghraifft adnoddau dysgu ar y we, fel ymweliadau rhithiol ag amgueddfa, neu gynnwys aml-gyfrwng gan ddefnyddio fideo, sain ac animeiddio. Teimlai'r myfyrwyr hyn fod arbrofi â'r adnoddau hyn yn eu helpu i feddwl yn fwy creadigol wrth gynllunio gwersi.

At ei gilydd, mae'r cyfyngiadau a ysgogwyd gan COVID-19 wedi golygu bod myfyrwyr wedi cael llai o gyfleoedd i ymgymryd â'r canlynol:

- addysgu sesiynau ymarferol mewn pynciau fel gwyddoniaeth, y celfyddydau ac Addysg Gorfforol
- cynllunio ar gyfer ystod lawn y dysgu mewn pwnc, yn enwedig yn y sector uwchradd, yn cynnwys cynllunio ar gyfer myfyrwyr TGAU a Safon Uwch
- rhyngweithio â disgyblion yn yr ystafell ddosbarth mewn gwaith un i un a gwaith grŵp
- gweithio gydag oedolion eraill yn yr ystafell ddosbarth
- rhyngweithio â disgyblion mewn ystod o gyd-destunau, fel amser egwyl, amser cinio, a dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth
- ystod o ddulliau rheoli ystafell ddosbarth
- arsylwi athrawon yn gweithio mewn amrywiaeth o gyd-destunau
- profi'r cysylltiadau rhwng theori ac arfer yn yr ysgol

Mae archwilio'r berthynas rhwng theori ac arfer yn elfen allweddol o'r rhaglenni newydd. Wrth ragweld cyfyngiadau tymor yr hydref, rhoddodd partneriaethau waith theori ac academaidd ar ddechrau'r rhaglenni. Mae hyn, wedi'i gyfuno ag anawsterau gweithio mewn ysgol, wedi golygu bod myfyrwyr wedi cael llai o gyfleoedd i ymchwilio i'r cysylltiadau rhwng theori ac arfer yn yr ystafell ddosbarth, neu i gasglu tystiolaeth i gefnogi eu haseiniadau ymchwil. Nododd ychydig o fyfyrwyr fod canolbwyntio ar theori a chysyniadau addysgol yn ystod wythnosau cyntaf eu rhaglen wedi eu 'trochi' mewn syniadau, a'u bod yn cael amser i ystyried y

wybodaeth hon, a’i ‘phrosesu’.  Fodd bynnag, er bod llawer o fyfyrwyr wedi gweld yr astudio academaidd hwn yn ddiddorol, dywedont eu bod ond wedi dechrau deall y theori pan allent fynd i mewn i ysgolion.

Y myfyrwyr a ddatblygodd eu medrau ymchwil yn fwyaf llwyddiannus oedd y rhai wedi eu lleoli mewn ysgolion lle roedd diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol wedi’i seilio ar ymholi.  Yn yr ysgolion hyn, enillodd myfyrwyr ddealltwriaeth werthfawr o’r rhyngweithio rhwng theori a datblygu arferion.

Efallai mai’r hyn sydd fwyaf arwyddocaol yw bod athrawon dan hyfforddiant wedi colli cyfleoedd i feithrin perthnasoedd gweithio gyda’u disgyblion.  Dywedodd llawer o fyfyrwyr wrthym, er bod addysgu o bell yn eu helpu i ystyried eu cynllunio, eu bod yn ei gweld yn heriol gweithio mewn amgylchedd heb allu mesur ymatebion disgyblion, na chael sgyrsiau ystyrlon gyda disgyblion am eu gwaith.  Hyd yn oed pan wnaethant ddechrau addysgu mewn ysgolion, roedd y cyfyngiadau COVID-19 oedd ar waith yn golygu bod rhaid iddynt weithio o bell o hyd, ac roeddent yn ei chael yn anodd dod i adnabod y disgyblion yr oeddent yn eu haddysgu.

Cafwyd anhawster arall wrth ddeall gwaith pob dydd ysgol.  Roedd meithrin perthnasoedd â staff ysgol a’u harsylwi yn addysgu ac yn ymgymryd â’u cyfrifoldebau proffesiynol hefyd yn agweddau ar brofiad y myfyrwyr a oedd wedi cael eu handwyo gan y pandemig.

**Cameo – Partneriaeth Ddysgu Yr Athrofa yn dathlu gwaith myfyrwyr mewn cynhadledd ar-lein**

Ym mis Mai 2021, cynhaliodd Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa gynhadledd ‘Anelu am Ragoriaeth’ a oedd yn cynnwys cyflwyniadau gan weithwyr proffesiynol blaenllaw.  Hefyd, rhoddodd y gynhadledd blatfform ar gyfer myfyrwyr ar yr holl raglenni addysg gychwynnol i athrawon yn y bartneriaeth i gyflwyno agweddau ar eu hymchwil, arfer a dysgu o’u profiadau o hyfforddi yn 2020-2021.  Trwy’r gynhadledd, dangosodd y bartneriaeth addasrwydd ac ymroddiad staff yn y brifysgol a’r ysgolion partner i barhau i gefnogi myfyrwyr, a dathlwyd gwydnwch myfyrwyr trwy gydol y cyfnod heriol hwn.

**Cameo – Podlediad gan diwtoriaid ym Mhartneriaeth Caerdydd yn cefnogi myfyrwyr, tiwtoriaid a mentoriaid**

Yn 2018, dechreuodd dau ddarlithydd o Bartneriaeth Caerdydd ddarlledu podlediad ar gyfer myfyrwyr TAR, a enwyd yn ‘Emma and Tom talk teaching’.  Daeth y podlediad yn hynod berthnasol yn ystod y pandemig, pan drodd llawer o fyfyrwyr a staff y bartneriaeth yn gynyddol at ddeunyddiau ar-lein i gefnogi eu harferion.  Mae pob pennod yn cynnwys prif drafodaeth (yn aml gydag un gwestai neu fwy), a thri slot rheolaidd ynghylch ‘lles’, ‘rhywbeth diddorol’ a ‘rhywbeth i roi cynnig arno’.  Mae’r podlediadau’n cwmpasu amrywiaeth o destunau buddiol yn gysylltiedig ag addysgu, cefnogi lles, a rhannu arfer effeithiol.  Mae penodau wedi cynnwys eitemau fel datblygu gwydnwch neu recordiad o sesiwn holi ac ateb am y Cwricwlwm i Gymru gyda chynrychiolwyr o’r consortia a Llywodraeth Cymru.  Mae darlithwyr, staff ysgol y bartneriaeth a myfyrwyr wedi ymddangos fel gwesteion yn siarad am eu harferion a’u hymchwil eu hunain.  Yn y modd hwn, mae’r podlediad yn cefnogi datblygiad cymuned arfer mewn addysg gychwynnol i athrawon.

Cydnabu'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr y siaradom â nhw fod eleni wedi bod yn eithriadol o heriol ar adegau o ran eu lles. Dywedodd myfyrwyr wrthym ni am y cymorth gwerthfawr a roddodd eu tiwtoriaid prifysgol iddynt. Roedd hyn yn arbennig o wir yn yr achosion prin lle cafodd myfyrwyr gyfle i weithio'n agos wyneb yn wyneb yn y brifysgol ar ddechrau eu rhaglenni, a chawsant gyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd gweithio cryf. Dywedodd yr holl fyfyrwyr eu bod wedi elwa ar systemau cymorth y brifysgol i 'wirio' myfyrwyr yn rheolaidd trwy gyfarfodydd rhithiol, er bod ychydig ohonynt yn meddwl y gallai'r cyfleoedd hyn fod wedi bod yn fwy helaeth. Dywedodd ychydig o'r cynrychiolwyr myfyrwyr y siaradom â nhw am bryderon a ddaethpwyd i'w sylw dros y flwyddyn am fyfyrwyr a oedd wedi teimlo'n ynysig. Roedd hyn yn arbennig o wir lle roedd myfyrwyr yn cael anawsterau yn eu profiadau ysgol, nid oeddent wedi datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda'u mentoriaid, ac wedi teimlo nad oeddent yn adnabod eu tiwtoriaid prifysgol yn ddigon da i gysylltu â nhw gyda'u gofidiau.

Gwerthfawrogodd llawer o fyfyrwyr y cysylltiadau a wnaethant gyda'u cyfoedion ar eu rhaglenni. Defnyddiont gyfryngau cymdeithasol a chyfarfodydd rhithiol i greu rhwydweithiau cymorth i helpu ei gilydd i ymdopi ag agweddau ar y rhaglenni, fel problemau ag aseiniadau, syniadau ar gyfer profiad ysgol a rhannu eu profiadau o ymgeisio am swyddi addysgu.

Yn ystod tymor yr hydref pan oedd llawer o fyfyrwyr yn astudio o bell, dywedont eu bod yn gallu rheoli eu baich gwaith yn effeithiol. Roedd ychydig o fyfyrwyr, yn enwedig y rhai â chyfrifoldebau gofalu neu blant ifanc, yn ei chael yn anodd astudio gartref. I ryw raddau, roedd dechrau'r rhaglenni, yn enwedig cyrsiau TAR, dan lai o bwysau na'r arfer. Nid oedd rhaid i fyfyrwyr feithrin eu medrau rheoli amser i ymdopi â gofynion cynllunio ar gyfer yr ysgol ar yr un pryd â chwblhau aseiniadau tan dymor y gwanwyn. Dywedodd rhai myfyrwyr fod ail hanner eu rhaglen wedi achosi mwy o straen iddynt gan eu bod yn jyglo aseiniadau a chynllunio gwersi.

Yn yr achosion mwyaf effeithiol, trefnodd partneriaethau sesiynau cymorth ar gyfer myfyrwyr, er enghraifft ar iechyd meddwl, neu daethant â myfyrwyr at ei gilydd lle roedd gofidiau cyffredin. Dyfeisiodd llawer o bartneriaethau ffyrdd newydd o gefnogi lles myfyrwyr. Er enghraifft, cyflwynodd partneriaeth CaBan sesiynau galw i mewn 'Amser panad' i fyfyrwyr aros mewn cysylltiad trwy siarad â'i gilydd trwy'r amgylchedd dysgu rhithiol. Mae partneriaethau eraill wedi gwneud defnydd da o'r gwasanaethau cymorth sydd eisoes ar waith yn y brifysgol; er enghraifft, ym Mhrifysgol De Cymru, roedd myfyrwyr partneriaeth yn gallu cymryd rhan yn niwrnodau 'Pet-a-pooch' Undeb y Myfyrwyr sy'n helpu myfyrwyr i leddfu straen.

# Addysgu a phrofiadau dysgu

## Y rhaglen a addysgir.

Ym mhob partneriaeth, mae prifysgolion, ysgolion arweiniol a phartneriaid eraill wedi cydweithio i lunio'r rhaglenni ar y cyd.  Fodd bynnag, roedd cyfyngiadau'r pandemig yn golygu nad oedd myfyrwyr yn gallu ymgymryd â phrofiadau yn yr ysgol yn y ffyrdd y cynlluniwyd y rhain yn wreiddiol ar gyfer tymor yr hydref.  I ymateb i hynny, ailgynlluniodd yr holl bartneriaethau eu rhaglenni i roi astudio academaidd a damcaniaethol ar ddechrau'r rhaglen.  Mae ysgolion arweiniol wedi chwarae rhan allweddol mewn adolygu rhaglenni, ac mae hyn wedi helpu sicrhau bod yr holl bartneriaid wedi gallu cefnogi myfyrwyr yn ystod argyfwng COVID-19.

Cyflwynodd partneriaethau gyfuniad o sesiynau byw (rhithiol), sesiynau wedi eu recordio ymlaen llaw a sesiynau anghydamserol.  Roedd yn well gan lawer o fyfyrwyr y sesiynau addysgu byw gan eu bod yn teimlo eu bod yn ymgysylltu'n fwy â'r dysgu, yn enwedig pan roedd y rhain yn cael eu recordio i fyfyrwyr eu chwarae'n ôl yn ddiweddarach.  Roedd myfyrwyr yn hoff iawn o'r ffordd yr oedd staff partneriaethau'n  defnyddio cyfleusterau fel ystafelloedd ymneilltuo i hwyluso trafodaethau grwpiau bach.



Roedd tiwtoriaid a mentoriaid a oedd yn cyflwyno sesiynau ar-lein yn awyddus i wneud sesiynau mor ryngweithiol ag y bo modd i fyfyrwyr. Arbrofont â gwahanol ddulliau, a helpodd hyn i fodelu arfer effeithiol ar gyfer y myfyrwyr. Canfu staff partneriaethau fod gweithio o bell yn cynnig manteision ar gyfer integreiddio elfennau ysgol a phrifysgol y rhaglen a addysgir oherwydd yr hyblygrwydd a gynigiwyd gan y dulliau hyn. Recordiodd staff mewn ysgolion arweiniol sesiynau ar gyfer y rhaglen, neu byddent yn 'galw i mewn' i ddarlithoedd a seminarau a oedd yn cael eu harwain gan staff prifysgol. Manteisiodd ychydig o staff i'r eithaf ar gyfleoedd y cyfnod clo yn ddychmygus, er enghraifft trwy gynnwys eu plant eu hunain wrth arddangos strategaethau addysgu. Roedd myfyrwyr yn hynod werthfawrogol o'r dulliau creadigol a ddefnyddiodd eu tiwtoriaid a'u mentoriaid i oresgyn heriau'r pandemig.

Manteisiodd staff a myfyrwyr partneriaethau ar weithio o bell trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau addysgol a fyddai fel arfer yn rhy bell neu'n rhy ddrud i'w mynychu wyneb yn wyneb. Mynychodd myfyrwyr amrywiaeth o ddigwyddiadau rhithiol a gyfoethogodd eu dysgu, fel cyfarfodydd cymdeithasau proffesiynol a Chynhadledd Addysg y Byd.

Datblygodd llawer o bartneriaethau eu rhaglenni i gynnwys dulliau digidol o ddysgu ac addysgu. Roedd sesiynau a addysgir yn cynnwys archwilio platfformau dysgu digidol a'r ffyrdd y gellir defnyddio'r rhain yn greadigol wrth gynllunio gwersi. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, enillodd myfyrwyr ddealltwriaeth o'r addysgeg ddigidol. Roedd hyn yn golygu eu bod nid yn unig yn defnyddio adnoddau digidol fel 'gimigau' neu i ddal sylw disgyblion, roeddent hefyd yn datblygu eu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth i gynllunio ac addysgu gweithgareddau sy'n helpu disgyblion i wneud cynnydd yn eu dysgu. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd myfyrwyr yn gallu uniaethu a chymharu eu dysgu eu hunain ag arferion ysgol.

**Cameo – Partneriaeth Prifysgol De Cymru yn datblygu dealltwriaeth myfyrwyr o addysgeg ddigidol**

Mae gan Bartneriaeth Prifysgol De Cymru arbenigedd hirsefydledig mewn dysgu digidol. Wrth addasu'r rhaglen Gynradd BA (Anrhydedd) ar gyfer 2020-2021, sylweddolodd arweinwyr y bartneriaeth y byddai datblygu medrau digidol myfyrwyr yn hanfodol bwysig wrth helpu myfyrwyr i reoli gofynion dysgu o bell. Caiff dulliau digidol o addysgu a dysgu eu hintegreiddio ar draws y rhaglen addysg gychwynnol i athrawon, gan roi sylfaen gref o ddealltwriaeth i fyfyrwyr o addysgeg defnyddio offer digidol. Rhoddir dyfais ddigidol i bob myfyriwr archwilio dulliau a chymwysiadau, a chreodd tiwtoriaid y brifysgol fideos i gefnogi defnydd myfyrwyr o gymwysiadau amrywiol gyda disgyblion. O ganlyniad, addasodd myfyrwyr yn dda i addysgu ar-lein. Ymchwiliont ystod o atebion creadigol i ddysgu o bell ar draws llawer o feysydd y cwricwlwm. Dywed myfyrwyr eu bod wedi dysgu llawer o fedrau newydd yn ystod y cyfnod clo.

**Cameo – Mae Partneriaeth Ddysgu Yr Athrofa wedi defnyddio dull ystyriol o ddatblygu dysgu ac addysgu digidol**

Ar ddechrau'r pandemig, sefydlodd arweinwyr y bartneriaeth y Gweithgor Dysgu Digidol. Fe wnaethant gydnabod bod staff wedi cael amrywiaeth o brofiadau a chymwyseddau o ran dysgu ac addysgu digidol, a threfnwyd hyfforddiant ar eu cyfer. Cefnogodd y gweithgor ddatblygiad cychwynnol sesiynau dysgu anghydamserol ar gyfer myfyrwyr.

Yn dilyn adborth gan fyfyrwyr a rhannu arfer effeithiol, aildrefnodd y bartneriaeth y dysgu ar gyfer tymor yr hydref i ddarparu cydbwysedd o sesiynau cydamserol ac anghydamserol i weddu i ailgynllunio angenrheidiol y rhaglen. Ystyriodd y gweithgor y symud oddi wrth y myfyriwr fel dysgwr i'r myfyriwr fel athro. O dymor yr hydref ymlaen, cynigiodd y bartneriaeth 'mannau ymarfer diogel' i staff arbrofi â'u dulliau addysgu o bell.

Yn nhymor y gwanwyn, rhannodd ysgolion y bartneriaeth a'r consortiwm astudiaethau achos arfer effeithiol mewn dysgu ac addysgu ar-lein. Gwahoddwyd partneriaid a myfyrwyr i rannu eu barn ar y datblygiadau yn y rhaglenni.

Mae'r bartneriaeth wedi adolygu eu dulliau digidol o ddysgu ac addysgu, ac yn sgil adborth gan fyfyrwyr a phartneriaid, maent yn bwriadu cadw agweddau ar y gwaith hwn mewn rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yn y dyfodol.

**Cysylltu theori ac arfer**

Roedd cyfleoedd cyfyngedig i fyfyrwyr, mentoriaid a thiwtoriaid gyfarfod wyneb yn wyneb, ond pan ddigwyddodd hyn, roedd myfyrwyr yn elwa ar y cyfle i archwilio agweddau ar arfer ystafell ddosbarth mewn gofod go iawn a meithrin perthnasoedd gyda'u cyfoedion a staff y bartneriaeth. Darparodd ychydig o bartneriaethau gyfleoedd gwerthfawr i fyfyrwyr brofi eu strategaethau addysgu trwy 'ficro-addysgu' ar-lein. Helpodd hyn fyfyrwyr i fagu hyder a'u *repertoire* o ddulliau mewn amgylchedd cefnogol.

Addasodd partneriaethau amserlen, cynnwys a ffurf aseiniadau i weddu orau i'r rhaglenni diwygiedig. Roedd hyn yn ystyriaeth bwysig ar raglenni TAR lle caiff myfyrwyr amser cyfyngedig i ymchwilio ac ymholi. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, galluogodd aseiniadau i fyfyrwyr greu cysylltiadau rhwng eu darllen a'u profiadau ysgol. Ym Mhartneriaeth Prifysgol Abertawe, er mwyn uchafu cyfleoedd i gysylltu ymchwil ac arfer, seiliwyd aseiniadau myfyrwyr ar eu profiad ysgol mewn meysydd ffocysedig, fel rheoli ymddygiad neu gynllunio gwersi. Galluogodd tasgau byrrach, wedi'u diffinio'n graff yn ymwneud â theori ac arfer y myfyrwyr i ystyried yr ymchwil sy'n gysylltiedig â'u gweithgareddau ysgol bob dydd.

Ailgynlluniodd llawer o bartneriaethau eu prif aseiniad ymchwil ar eu rhaglenni TAR fel bod myfyrwyr yn archwilio dulliau ymchwil, fel diffinio maes ar gyfer ymholi, adolygu llenyddiaeth berthnasol a chynllunio dulliau ymchwil heb gynnal yr ymholiad yn yr ysgol. Er nad oedd hyn yn ddull delfrydol, helpodd myfyrwyr i ddeall y modd y mae ymchwil yn ffurfio arferion ysgol, ac roedd yn ddewis amgen hynod effeithiol lle roedd mentoriaid a staff partneriaeth mewn ysgol yn cynorthwyo myfyrwyr i wneud

eu hastudio damcaniaethol yn ystyrlon trwy ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr rannu eu syniadau â staff yn yr ysgol. Dywedodd myfyrwyr eu bod wedi elwa mwy ar ddatblygu eu medrau ymchwil pan oedd cyfleoedd strwythuredig i drafod eu dulliau ymchwil mewn grwpiau gyda'u cyfoedion a staff y bartneriaeth mewn sesiynau trafod ar-lein.

**Cameo – Myfyrwyr Partneriaeth Caerdydd yn ymchwilio i gefnogi gwella ysgolion**

Ailystyriodd Partneriaeth Caerdydd y dull a ddefnyddir ar gyfer aseiniadau ymchwil myfyrwyr eleni. Nid oedd myfyrwyr TAR yn gallu casglu tystiolaeth mewn ysgolion i archwilio'r cysylltiadau rhwng theori ac arfer yn nhymor yr hydref. Yn hytrach, fe wnaethant ddadansoddi'n feirniadol ystod o lenyddiaeth addysgol i ymchwilio i faes datblygu o gynllun gwella eu hysgol. Gweithiont gyda'r Hyrwyddwyr Ymchwil yn yr ysgolion arweiniol i sicrhau y byddai eu dull yn berthnasol i gyd-destun yr ysgol. Helpodd hyn i atgyfnerthu'r diwylliant ymchwil yn yr ysgol. Creodd myfyrwyr ffeithlun i egluro syniadau allweddol wrth fynd i'r afael â'r mater. Mewn rhai achosion, cyflwynodd myfyrwyr eu canfyddiadau i uwch arweinwyr ac i lywodraethwyr ysgol. Helpodd yr aseiniad hwn y myfyrwyr i ystyried sut y gellid defnyddio ymchwil i wella arferion mewn cyd-destun go iawn. Ar yr un pryd, dywedodd ysgolion arweiniol fod gwaith y myfyrwyr yn fuddiol i'r ysgol.

Mewn ychydig o achosion, teimlai myfyrwyr dan anfantais oherwydd nad oeddent yn gallu casglu tystiolaeth ar gyfer eu haseiniadau yn yr ysgol. Mewn rhai achosion, roedd hyn oherwydd nad oedd ysgolion yn deall gofynion y tasgau hyn.

Mewn rhai ysgolion, mae myfyrwyr wedi cael mwy o gyfleoedd i ymgymryd â dysgu proffesiynol gyda staff ysgol trwy ddigwyddiadau datblygiad proffesiynol rhithiol. Yn yr ysgolion arweiniol mwyaf effeithiol, mae myfyrwyr wedi gallu profi dulliau dysgu proffesiynol trwy gydol gyrfa, a gweld sut mae'r ysgolion hyn yn cefnogi staff i ddatblygu eu syniadau a'u medrau yn barhaus.

### Y rhaglen yn yr ysgol

Mae'r holl bartneriaethau yn elwa ar eu partneriaid ysgol arweiniol effeithiol. Yn yr holl ysgolion arweiniol, mae staff wedi cynnal eu hymrwymiad i gyd-gyflwyno rhaglenni trwy gydol cyfnod y pandemig. Yn ystod tymor yr hydref, darparodd ysgolion arweiniol mewn llawer o bartneriaethau ddysgu o bell i gwmpasu eu hagweddau ar gyflwyno. Yn yr enghreifftiau gorau, rhoddodd elfennau ysgol arweiniol y rhaglenni gymorth i fyfyrwyr fyfyrio ar eu sesiynau prifysgol a'u darllen i archwilio addysgeg ac arferion yng nghyd-destun yr ysgol arweiniol. Dywedodd ymarferwyr ysgolion arweiniol fod addysgu'r rhaglen dan arweiniad ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar ddull ymchwil ac ymholi'r ysgol gyfan yn ystod y pandemig. Darparodd ffocws cadarnhaol ar gyfer yr ysgol, a chynnal ymdeimlad o barhad.

**Cameo – Mae Partneriaeth Aberystwyth yn datblygu dulliau o gynorthwyo athrawon dan hyfforddiant mewn ysgolion**

Cyn y pandemig, byddai tiwtoriaid cyswllt prifysgol o Bartneriaeth Aberystwyth yn ymweld ag ysgolion i werthuso cynnydd myfyriwr. I oresgyn cyfyngiadau teithio i ysgolion, datblygodd Partneriaeth Aberystwyth broses 'arsylwadau heb eu gweld'. Cyn i'r myfyriwr addysgu gwers, mae'r myfyriwr a'i diwtor prifysgol yn cyfarfod ar-lein i drafod cynllun y wers a'r dysgu bwriadedig. Wedi i'w fentor ysgol arsylwi'r myfyriwr yn addysgu, mae'r myfyriwr, y mentor a'r tiwtor prifysgol yn cyfarfod eto ar-lein. Mae'r tiwtor prifysgol yn gwrando ar adborth y mentor ac ar y myfyriwr yn myfyrio ar y wers. Yn dilyn hyn, mae'r tri chyfranogwr yn trafod sut bydd y myfyriwr yn gwneud cynnydd. Mae'r strategaeth yn caniatáu deialog barhaus rhwng tiwtoriaid, mentoriaid a myfyrwyr.

### Datblygu dealltwriaeth myfyrwyr o'r Cwricwlwm i Gymru

Un o'r heriau penodol eleni oedd paratoi myfyrwyr i addysgu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae ysgolion partneriaeth mewn cyfnodau datblygu amrywiol wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae llawer o ysgolion arweiniol wedi cymryd rhan mewn diwygio'r cwricwlwm fel ysgolion arloesi a braenaru, ac mae tiwtoriaid prifysgol wedi ymgymryd ag agweddau amrywiol ar waith y Cwricwlwm i Gymru hefyd. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i gael profiadau uniongyrchol o'r modd y mae ysgolion yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm wedi bod yn gyfyngedig eleni, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Yn yr achosion gorau, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, mae staff wedi annog myfyrwyr i ddatblygu cynlluniau arloesol, ac mae myfyrwyr wedi profi'r modd y mae ysgolion yn mynd ati i ddiwygio'r cwricwlwm mewn gwahanol gyd-destunau.

At ei gilydd, nid oes gan bartneriaethau ddarlun digon clir o ble mae ysgolion wedi cyrraedd yn eu taith tuag at weithredu'r cwricwlwm. O ganlyniad, yn enwedig yn sgil yr anawsterau eleni, nid yw partneriaethau wedi gallu cynllunio i fyfyrwyr weld arfer effeithiol yn uniongyrchol. Yn ychwanegol, mae dulliau o ddatblygu dealltwriaeth myfyrwyr o ddylunio a datblygu'r cwricwlwm yn rhy amrywiol ar draws yr holl raglenni.

### Datblygu dealltwriaeth myfyrwyr o addysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

Mae cyfyngiadau COVID-19 wedi cyfyngu ar allu partneriaethau hefyd i sicrhau bod myfyrwyr yn datblygu eu hymwybyddiaeth o agweddau eraill ar arfer ysgol, fel datblygu dealltwriaeth o addysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Er bod hyn yn cael ei gwmpasu mewn rhaglenni a addysgir yn yr ysgol a'r brifysgol, nododd myfyrwyr eu bod yn teimlo y byddent wedi elwa ar weld arfer dda mewn addysgu disgyblion ag ADY. Dywedodd ychydig o fyfyrwyr mai agwedd gadarnhaol ar hyfforddiant yn ystod y pandemig oedd bod ganddynt brofiad yn narpariaeth yr 'hyb' a drefnwyd gan rai awdurdodau lleol. Roedd hyn wedi galluogi'r myfyrwyr hyn i weithio gyda disgyblion bregus, yn cynnwys y rhai ag ADY, a chael sgyrsiau gwerthfawr â staff am sut i gefnogi'r disgyblion hyn. Fodd bynnag, dywedodd myfyrwyr wrthym hefyd eu bod wedi cael profiadau amrywiol o ddulliau ysgolion o addysgu disgyblion ag ADY. Creodd rhai ysgolion gyfleoedd i fyfyrwyr weithio gyda

grwpiau o ddisgyblion ag ADY, ond ni wnaeth ysgolion eraill hyd yn oed rhoi gwybod i fyfyrwyr am y disgyblion hynny ag ADY a oedd yn y dosbarthiadau yr oeddent yn eu haddysgu.

**Profiad ysgol**

Roedd myfyrwyr yn ddiolchgar iawn am y cyfleoedd a gawsant i addysgu, er y bu'n rhaid i lawer ohonynt aros am sawl mis wedi i'w rhaglen ddechrau cyn iddynt allu mynd i'r ysgol.  Fe wnaethant gydnabod yr anawsterau a gafodd ysgolion yn darparu ar gyfer myfyrwyr yn ystod eu profiad ysgol, fel trefnu eu haddysgu ar gyfer 'swigod' o ddisgyblion, neu weithio o fewn gofod cyfyngedig.  Roeddent yn ddiolchgar am yr amser a roddodd eu mentoriaid iddynt yn ystod cyfnod mor heriol.

Wedi iddynt gael eu cynnwys yn agos mewn cynllunio'r rhaglenni, rhoddodd yr ysgolion arweiniol gefnogaeth dda i fyfyrwyr.  Roedd profiadau ar gyfer myfyrwyr yn y rhwydwaith ehangach o ysgolion yn fwy amrywiol.  Nododd myfyrwyr nad oedd yn ymddangos bod gan rai mentoriaid ddealltwriaeth ddigon da o ofynion y rhaglen.  Roedd hyn yn cynnwys disgwyliadau am gynllunio ac addysgu, cymorth ar gyfer cwblhau aseiniadau, a dod o hyd i gyfleoedd i fyfyrwyr ddysgu gan ystod o ymarferwyr.  Gwelodd ychydig o fyfyrwyr fod trosglwyddo o un lleoliad i'r nesaf yn heriol oherwydd y gwahaniaethau o ran ymagwedd at eu cymorth.

**Asesu yn erbyn y safonau**

Mae prosesau gan bob rhaglen i asesu trywydd myfyrwyr tuag at Statws Athro Cymwys (SAC).  Mae holl staff partneriaethau yn meddu ar ddealltwriaeth o egwyddorion gwneud hyn, ond yn ymarferol, mae wedi bod yn heriol gweithio gyda'r holl bartneriaid i sicrhau bod pawb yn meddu ar ddealltwriaeth ar y cyd o sut i farnu trywydd cynnydd myfyrwyr yn erbyn y safonau ar gyfer SAC.

Mae pob partneriaeth wedi defnyddio dull gwahanol o ran asesu myfyrwyr yn erbyn y safonau eleni.  Mae rhai partneriaethau wedi canolbwyntio ar safonau allweddol, neu wedi gwahaniaethu'r safonau i fonitro cynnydd myfyrwyr ar adegau amrywiol yn ystod y flwyddyn.  Mae partneriaethau eraill wedi asesu myfyrwyr ar draws yr holl safonau, ond wedi gofyn i diwtoriaid a mentoriaid wneud hyn o fewn cyfyngiadau profiadau'r myfyrwyr.

Dywedodd ychydig o fyfyrwyr eu bod yn cael cefnogaeth dda gan diwtor proffesiynol, a ddynodwyd yn arbennig i gynorthwyo â chasglu tystiolaeth yn erbyn y safonau, a chasglu'r Pasbort Dysgu Proffesiynol ynghyd.  At ei gilydd, mae myfyrwyr wedi gweld y broses ar gyfer cyflwyno tystiolaeth yn heriol.  Maent wedi ei chael yn anodd nodi tystiolaeth berthnasol, yn enwedig yn erbyn safonau lle maent yn teimlo nad oes ganddynt ddigon o brofiad.  Ni chafodd hyn ei helpu gan yr amrywiad mewn cyngor a chymorth a ddarparwyd gan diwtoriaid a mentoriaid, er enghraifft am beth sy'n gwneud tystiolaeth gadarn, neu faint o ddarnau o dystiolaeth sydd eu hangen.  Pan fu'n rhaid i fyfyrwyr gasglu tystiolaeth yn erbyn pob un o'r safonau, roeddent yn cael trafferth dod o hyd i dystiolaeth ar gyfer rhai meysydd, er enghraifft cydweithio ac arweinyddiaeth.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

**Mae wedi bod yn heriol sefydlu'r partneriaethau newydd mewn cyfnod o ansicrwydd enfawr. Er gwaethaf yr ansicrwydd yn sgil COVID-19, mae prifysgolion ac ysgolion arweiniol wedi arddangos dycnwch ac ystwythder nodedig wrth weithio gyda'i gilydd i gefnogi athrawon dan hyfforddiant eleni.**

Mae partneriaethau'n arddangos ymrwymiad cryf i gydweithio, ac mae perthnasoedd gweithio yn aeddfedu. Mae ysgolion arweiniol wedi dangos ymrwymiad penodol i addysg gychwynnol i athrawon, gan sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu elfennau yn yr ysgol y rhaglenni yn ystod cyfnodau pan oeddent yn wynebu heriau sylweddol o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r holl bartneriaethau wedi croesawu'r cyngor a'r arweiniad clir ac amserol gan Lywodraeth Cymru sydd wedi cefnogi canolbwyntio o'r newydd ar y rhaglenni, oedd yn angenrheidiol.





**Mae'r holl bartneriaethau'n datblygu diwylliant o arfer wedi'i llywio gan ymchwil.**

**UMae prifysgolion yn cefnogi datblygu ymholi yn eu hysgolion arweiniol, ac mae partneriaethau'n gweithio gyda'i gilydd i lywio datblygiad y sector.  Er enghraifft, mae partneriaethau'n cydweithio i ymchwilio i effaith COVID-19 ar agweddau ar addysg yng Nghymru.**

**Cameo – Mae partneriaeth CaBan yn defnyddio ymchwil i ddatblygu dulliau o asesu athrawon dan hyfforddiant**

Mae grŵp datblygu mentoriaid sy’n cynnwys staff y bartneriaeth o ysgolion a’r brifysgol yn ymchwilio i ddod o hyd i’r ffordd fwyaf effeithiol o ddisgrifio cynnydd athro dan hyfforddiant trwy ei raglen addysg gychwynnol i athrawon. Maent wedi adolygu’r llenyddiaeth ar ddilyniant myfyrwyr i nodi ymddygiadau nodweddiadol ar adegau penodol ar ddechrau datblygiad athro. Mae hyn wedi llywio set o ddisgrifwyr i’w defnyddio gan fentoriaid wrth asesu cynnydd myfyrwyr tuag at SAC.

Mae’r tiwtoriaid a’r mentoriaid yn y grŵp yn ymchwilio i’r agwedd hon ar eu gwaith fel rhan o’u hastudiaethau ymchwil ôl-raddedig. Bydd y bartneriaeth yn peilota’r defnydd o ddisgrifwyr drafft ac arweiniad ar gyfer asesu ar draws y bartneriaeth. Yn dilyn y cynllun peilot, bydd y bartneriaeth yn gwerthuso a mireinio’r dulliau hyn.

Mae’r holl bartneriaethau wedi wynebu anawsterau yn lleoli myfyrwyr mewn ysgol eleni. Teimlai ychydig o ysgolion partner nad oeddent yn gallu cyfrannu at y bartneriaeth eleni oherwydd cyfyngiadau COVID-19. O ganlyniad, mae partneriaethau wedi estyn allan i rwydwaith ehangach o ysgolion i gefnogi myfyrwyr. Mae datblygu perthnasoedd gyda’r consortia yn cefnogi rhannu gwybodaeth am ysgolion, sydd wedi helpu’r partneriaethau â lleoliadau. Fodd bynnag, mae ehangu’r bartneriaeth, ynghyd â chyfyngiadau ar ymweld ag ysgolion, wedi golygu nad yw partneriaethau wedi ymgymryd â gweithdrefnau sicrhau ansawdd a datblygiad mentoriaid unigol, yn unol â’r bwriad. O ganlyniad, mae myfyrwyr wedi cael profiadau sy’n amrywio’n sylweddol.

Mae’r holl bartneriaethau wedi gweld gwerth mewn cyfarfod yn rhithiol, ac mae hyn wedi bod o fudd i ddatblygiad y bartneriaeth. Dywed rhai staff partneriaethau fod cyfathrebu wedi cryfhau trwy’r rheidrwydd i ddod o hyd i atebion i heriau’r pandemig. Eleni, mae llawer o arweinwyr partneriaethau wedi nodi bod cyfarfodydd rhithiol mwy rheolaidd wedi rhoi mwy o gyfleoedd i sgwrsio, ac mae hyn wedi cryfhau ysbryd colegol a chymorth ar y ddwy ochr trwy gydol yr argyfwng. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw’r cyfathrebu rhwng arweinwyr partneriaethau a’r rhwydwaith ehangach o ysgolion wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu rhannu, er enghraifft am asesu myfyrwyr ar brofiad ysgol.

Mae llawer o bartneriaethau wedi datblygu ffyrdd newydd o weithio gyda’u mentoriaid, sy’n goresgyn ffiniau daearyddol a chyfyngiadau o ran amser. Mae gweminarau a digwyddiadau dysgu proffesiynol ar-lein wedi cynorthwyo mentoriaid i ddatblygu eu harferion. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae mentoriaid wedi rhannu eu profiadau a’u hymchwil i fentora trwy gydol y pandemig.